



Ysgol Hafod Lon Newydd

Croeso i'n cylchlythyr Gorffennaf ac, fel y gwyddoch, mae Wynne Construction wedi cael ei benodi fel prif contractwr i adeiladu Ysgol Hafod Lon Newydd ym Mhenrhyndeudraeth. Bydd y ddarpariaeth newydd yn cynnwys ystafelloedd dosbarth modern ac offer pwrpasol, pwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd, ardaloedd awyr agored addas ar gyfer chwarae a dysgu a gardd.

Mae'r gwaith yn gwneud cynnydd da. Mae'r strwythur ffrâm goncrid yn parhau i dyfu a waliau cynnal allweddol wedi'u codi. Ar gyfer y Ganolfan Seibiant 2-lawr 'rydym wedi dechrau gosod y sylfeini ac ar hyn o bryd yn gweithgynhyrchu'r strwythur ffrâm bren. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn dechrau gweithio ar y strwythur pren dros dro i ffurfio'r tô concrid, ynghyd â dechrau gosod y lloriau concrid.



Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ymddiheuro am unrhyw anhwylustod a allai fod wedi cael ei achosi yn ystod y cyfnodau hyn o'r adeiladu a gofynnwn ichi beidio ag oedi i gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau, pryderon, problemau neu sylwadau yn ystod y camau adeiladu. Fel 'Adeiladwr Ystyriol' rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith yn cael effaith lleiaf bosibl ar eich gweithrediadau ac arferion dyddiol. Mae'r prosiect hwn wedi cael ei gofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol ac rydym wedi ymrwmo i gyfarfod, ac i ragori safonau y côd hwn. Ynghlwm mae holiadur ac rydym yn croesawu unrhyw adborth mewn perthynas â'r prosiect hwn, a'n perfformiad, ac yn eich sicrhau y bydd unrhyw bryderon yn cael sylw gan ein tîm prosiect ymroddedig.

Tim Wynne Construction

Newyddlen – Gorffennaf 2015

1 Ydych chi'n byw neu'n gweithio yn agos at y prosiect?

Ydw

Na

Os ydych, rhowch eich cyfeiriad cartref/man gwaith:

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol. A fydddech chi'n hoffi copi o'r holiadur wedi ei gwblhau le? Le Na

2 A gawsoch chi eich gwneud yn ymwybodol gan Gyngor Gwynedd o'r cynllun hwn, fod Wynne wedi eu penodi a'r dyddiad cychwyn arfaethedig cyn i ni gychwyn gweithio ar safle?

Do

Na

3 A yw'r gwaith adeiladu yn effeithio arnoch chi a / neu eich busnes?

Ydi

Na

Os ydi, nodwch yn gryno sut:

4 Beth, os unrhyw beth, all gael ei wneud gan Wynne Construction i leihau effaith y broses adeiladu ar drigolion lleol?

5 Beth yw eich argraffiadau o Wynne Construction?

Adeiladwr ystyrion yn gweithredu safle diogel, ac o dan reolaeth.

Contractwr, sydd yn rhoi eu gwaith fel blaenoriaeth a dim yn achosi aflonyddwch

Contractwr mawr sydd yn cario ymlaen gyda'r gwaith heb ystyried ei gymdogion

6 Unrhyw sylwadau eraill?

Enw:

Llofnod: